Dosbarth Pabi -
Blwyddyn 3, 4 a 5

Dosbarth Pabi - Blwyddyn 3,4,5

Tymor yr Hydref - Fi yw Fi!

Dosbarth Pabi - Year 3, 4, 5- Autumn Term

Fi yw Fi!

Trosolwg Tymor yr Hydref

Yn Nosbarth Pabi, byddwn yn cychwyn ar daith gyffrous gan edrych yn benodol ar beth sy'n fy siapio? Byddwn yn canolbwyntio ar bobl yn fy mywyd a phobl pwysig sy'n ein helpu yn y gymuned. Byddwn yn edrych ar ein cyrff a sut i gadw ein cyrff yn gryf ac yn iach gan ddeall sut mae bwyd yn treiddio drwy'r corff a'r effaith mae bwyd iach/afiach yn cael ar ein cyrff. Byddwn yn ymchwilio hanes yr ardal leol a sut mae wedi newid dros gyfnod o amser a beth sy'n gwneud pobl yr ardal yn arbennig. Byddwn yn trafod sut i wneud penderfyniadau doeth a cheisio deall y rheolau sy'n ein cadw'n ddiogel yn y gymuned. Yn ogystal, byddwn yn dysgu am fywydau Hindŵaidd gan gymharu ein bywydau er mwyn datblygu dealltwriaeth a pharch at gredoau gwahanol yn ein gymuned i allu sicrhau bod pawb yn gallu cyd-fyw.

Mi fydd y thema hyn yn galluogi'r disgyblion i ddeall beth sy'n gwneud nhw'n unigryw ac yn arbennig a sut mae modd cyd-fyw a pharchu eraill. Drwy drafod a darllen straeon byddwn yn adnabod ein hunan-werth a dysgu sut i adeiladu perthnasoedd bositif gydag eraill.

Autumn Term Overview

In Dosbarth Pabi, we will begin an exciting journey and explore the question, "What shapes us?" We will focus on the people in our lives and the important people who help us in our community. We will learn about our bodies and how to keep them strong and healthy, gaining an understanding of how food travels through the body and the effects that healthy and unhealthy foods can have on us.

We will investigate the history of our local area, exploring how it has changed over time and what makes the people who live here special. We will discuss how to make sensible choices and understand the rules that help to keep us safe within our community. In addition, we will learn about Hindu ways of life and compare them with our own, developing understanding and respect for different beliefs and cultures so that everyone can live together harmoniously.

This theme will help learners understand what makes them unique and special, while encouraging them to appreciate and respect others. Through discussion, stories and a range of engaging activities, we will develop our self-worth, build positive relationships, and learn how to play an active role in our community.

Llyfrau Darllen / Reading Books

Darllenwch yn ddyddiol. Dewch â llyfrau a chofnodion mewn ar **Ddydd Llun**


Read daily. Please bring reading books and records into school every **Monday**



Gwaith Cartref

Bydd gwaith cartref yn cael ei ddarparu yn wythnosol ar TEAMS ac yn canolbwyntio ar sgiliau sylfaenol rhifedd a llythrennedd

Homework will be given weekly on TEAMS which will concentrate on basic numeracy and literacy skills.



Rhifedd / Numeracy

Ymarferwch

Bl.3: Tabl 2, 3, 5 a 10

Bondiau hyd at 50

Bl.4 a 5: Tabl 6, 7 a 8

Number Bonds to 100 and 1000

Practise

Year 3: 2, 3, 5 and 10 times table

Number bonds to 50

Year 4 and 5: 6, 7 and 8 times table

Number bonds to 100 and 1000



Ymarfer Corff / P.E

Gwisgwch cit ymarfer corff i'r ysgol **ar Ddydd Mawrth**

Please wear P.E kit to school **every Tuesday.**



Llythrennedd / Literacy

Parhewch i ymarfer geiriau sillafu a darllen yn wythnosol.

Please continue to practise weekly spelling words and weekly reading.

Ysgol Groes-wen Tymor yr Hydref


Fi yw Fi!


Cwestiynau Hanfodol


Beth sy'n fy siapio?

Dunjaethau	Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Celfyddydau Mynegiannol	Iechyd a Lles	Ieithoedd, Llythrennedd a	Mathemateg a Rhifedd
					
Pam fy mod yn dysgu hyn?	**Pam fy mod yn dysgu hyn?**	**Pam fy mod yn dysgu hyn?**	**Pam fy mod yn dysgu hyn?**	**Pam fy mod yn dysgu hyn?**	**Pam fy mod yn dysgu hyn?**
Rydyn ni'n deall sut gallaf gyfrannu'n weithredol ac yn adeiladol at fy nghymuned. Rydyn ni'n gydnabod bod fy ngweithredoedd i a gweithredoedd pobl eraill yn effeithio ar gymunedau a'r amgylchedd. Rydyn ni'n marchwilio rhai achosion ac effeithiau digwyddiadau a newidiadau yn fy nghymuned dros amser.	Rydyn ni'n dysgu er mwyn deall sut mae ein cyrff yn datblygu ac yn gweithio, sut i gadw'n heini ac yn iach. Rydyn ni'n cydnabod sut mae'r dewisiadau rydyn ni'n gwneud yn ein helpu ac yn ein gofalu nawr ac yn y dyfydol.	Rydyn ni'n dysgu am aritision amrywiol er mwyn gallu gwerthfawrogi gwaith amrywiol a gallu cymharu pethau tebyg ac anhebyg rhwng yr artistiaid. Rydyn ni'n achub ar y cyfle i fod yn greadigol ac ungryw yn ein gwaith celf a drama. Drwy ein gwaith creadigol rydyn ni'n datblygu ein dealltwriaeth o'n hunaniaeth ddiwylliannol a chymharu gyda diwylliannau amrywiol yn y byd. Rydyn yn dangos ein gallu i fod yn ddinasyddion egwyddorol yn y ffordd rydym yn dathlu'r pethau tebyg ac anhebyg rhyngom.	Rydyn ni'n dysgu hyn er mwyn deall sut beth sy'n fy siapio fel person yn nhermau iechyd a diogelwch. Drwy ymwchil rydym yn deall sut mae'r hyn rydym yn rhoi mewn i'n cyrff yn ein siapio nawr ac yn y dyfodol. Rydyn ni'n dysgu am hunaniaeth, teimladau a pharch at fy hun ac eraill ac i ddeall sut mae gwrando ar eraill yn gallu bod yn fuddiol i fy iechyd. Rydyn ni'n trafod perthnasoedd gyddg eraill a sut yr ydym yn gallu cadw pawb yn ddiogel. Rydym yn dangos dealltwriaeth o sut mae pawb yn wanahol a bod hyn yn rhywbeth i ddathlu a thrwy hyn rydym yn dysgu sut i fod yn dinasyddion egwyddorol a gwybodus.	Rydyn ni'n datblygu a mireinio ein sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydyn ni'n defnyddio ein dealltwriaeth ffoneg i'n helpu i ddarllen ac ysgrifennu geiriau newydd. Rydyn ni'n defnyddio testun o fewn llyfrau a cherddi i'n ysbydoli i drafod ac ysgirfennu. Rydyn ni'n adeiladu brawddegau a chyfresi o frawddegau gan gynnwys cysyllteiriau er mwyn ymestyn ein gwaith. Rydyn ni'n dysgu geirfa newydd sy'n gysylltiedig â'n thema ac yn defnyddio'r geiriau hynny mewn gwahanol gyd-destunau. Rydyn ni'n dysgu am ieithoedd eraill sy'n rhan o'n dosbarth a'n cymuned. Mae hyn yn ein helpu i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n cyfathrebu'n hyderus ac yn mynegi eu syniadau mewn gwahanol ffyrdd.	Rydyn ni'n dysgu hyn er mwyn deall gwerth pob digid mewn rhif a defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo'n gywir. Rydyn ni'n dysgu hyn er mwyn defnyddio gwahanol strategaethau i ddatrys problemau mathemategol a sefyllfaoedd bywyd go iawn. Rydyn ni'n dysgu hyn er mwyn deall y cysylltiad rhwng lluosi a rhannu a chyfrifo'n fwy hyderus. Rydyn ni'n dysgu hyn er mwyn gallu mesur yn gywir a defnyddio ein sgiliau wrth gyfrifo perimedr ac arwynebedd. Rydyn ni'n dysgu hyn er mwyn deall ffracsiynau a'u defnyddio wrth ddatrys problemau mathemategol.
Fy mhrofiad fel dysgwr	**Fy mhrofiad fel dysgwr**	**Fy mhrofiad fel dysgwr**	**Fy mhrofiad fel dysgwr**	**Fy mhrofiad fel dysgwr**	**Fy mhrofiad fel dysgwr**
• Rydw i'n mynd i ddeall beth yw gwrthdaro a'i nodweddion allweddol drwy edrych ar enghreifftiau. • Deall yr effaith mae hyn wedi cael ar yr ardal leol. • Dod i adnabod yr ardal leol- ble mae ein hysgol a beth sydd o'i hamgylch. • Dysgu am swyddi pwysig yn ein hardal leol.	• Rydw i'n gallu adnabod, enwi a labelu organau'r system dreulio, esbonio sut mae bwyd yn teithio drwy'r corff, a disgrifio sut mae gwahanol fathau o ddannedd yn helpu i dorri bwyd i lawr. • Rydw i'n gallu esbonio pam bod angen diet cytbwys ar bobl ac anifeiliaid i aros yn iach, ac adnabod sut mae cyhyrau ac esgyrn yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal, amddiffyn a symud y corff.	• Rydw i'n mynd i edrych ar fywyd llonydd - bwyd e.e bowlen ffrwythau neu arteffactau. • Rydyn ni'n mynd i fraslunio, dysgu sut i ddangos haenau e.e gellir braslunio eitemau unigol yna eu torri a'u gludo fel eu bod yn gor-gyffwrdd. • Rydyn ni'n edrych ar waith artist e.e Cezanne. • Yn ein gwaith drama rydyn ni'n mynd i greu lluniau llonydd / dramau byrion ar bobl sy'n helpu.	• Rydw i'n gallu esbonio pam mae deiet cytbwys yn bwysig, deall sut mae bwyd, cwsg a gweithgarwch corfforol yn effeithio ar fy iechyd a'm hwyliau, gwneud penderfyniadau gwybodus drwy ystyried risgiau a buddion, a defnyddio strategaethau addas i gefnogi fy iechyd meddwl ac emosiynol. • Rydw i'n gallu datblygu fy sgiliau symud drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chwaraeon tîm, defnyddio sgiliau fel pasio, rheoli'r bêl, symud, amddiffyn a saethu/taflu, a chydweithio'n effeithiol ag eraill.	• Rydw i'n mynd i edrych ar gerddi a deall nodweddion cerddi arbennig fel cerdd acrostig. Yn ogystal rydw i'n mynd i allu ddangos gwerthfawrogiad o gerdd. • Rydw i'n mynd i ddefnyddio arddull Pie Corbett ia llu ysgrifennu stori gyda dechreuad, canol a diwedd. • Rydw i'n mynd i ddangos dealltwriaeth o symbolau atalnodi fel dydynodau a defnyddio rhain yn fy nghwaith ysgrifennu. • Rydw i'n mynd i ysgrifennu cyfres o frawddegau i greu baragraff o waith. • Rydw i'n mynd i sillafu geiriau gan ddefnyddio fy nealltwriaeth ffoneg.	• Rydw i'n myn i ddangos dealltwriaeth o werth lle. • Rydw i'n mynd i allu defnyddio strategaethau gwahanol i adio a thynnu ac yna gallu defnyddio'r sgiliau yma i ddatrys problmeau geiriol a phroblemau rheymegol. • Rydw i'n mynd i ddeall teulu ffeithiol a defnyddio rhain wrth i mi luosi a rhannu. • Rydw i'n mynd i allu mesur gan ddefnyddio mm,cm a m a defnyddio'r dealltwriaeth yma i fesur perimedr ac arwynebedd siapiau reholaidd ac afreolaidd. • Rydw i'n mynd i ddangos dealltwriaeth o ffracsiynau o rif gan hefud adio a thynnu

Llenyddiaeth / *Literature*
























Profiadau sy'n ennyn diddordeb
Engaging Experiences

Darllen straeon Roald Dahl/ Read Roald Dahl's books. 	Ymweliad gan yr Heddlu/ A visit from the Police. 	Ymweliad gan Ddeintydd/ A visit from a dentist. 
Cyngerdd Nadolig / Christmas Concert 	Gwasanaeth Cynhaeaf ysgol gyfan / Whole school Harvest Festival 	Dydd y Cofio /Remeberence Sunday 
Plannu ffa llydan/ Plant broad beans 	Diogelwch ar y we/ Internet safety 	